# Pecyn Cymorth Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata – Rhannu gwybodaeth am gynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) yng Ngogledd Cymru



Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

# Cynnwys


**Tudalen 3 – Y Cefndir**

**Tudalen 4 – Y Cyfryngau Cymdeithasol**

**Tudalen 5 – Fideos**

**Tudalen 6 – Ffeithluniau (Infographics)**

**Tudalen 7 – Y Cyfryngau Newyddion**

**Tudalen 8 – Straeon ar y We**

**Tudalen 9 – E-farchnata**

**Tudalen 10 – Cyfathrebu Mewnol**

# Y Cefndir

O wella sgiliau, i gyflwyno technolegau arloesol newydd, mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (CFfGDU) wedi sbarduno datblygiadau da. Bydd sôn am y llwyddiannau hyn, o'ch profiad chi neu'r rhai a gynrychiolwch, yn ffordd ardderchog o wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r brand. Bydd hefyd yn dangos defnydd effeithiol o arian awdurdodau lleol drwy CFfGDU.

Yng Ngogledd Cymru, daeth yr awdurdodau lleol at ei gilydd i weinyddu CFfGDU. Caiff 'Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru' ei hariannu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF). Cyngor Gwynedd yw'r corff arweiniol, yn gweithredu ar ran chwech awdurdod lleol y rhanbarth. I'r rhai sy'n dosbarthu ac yn derbyn arian CFfGDU drwy awdurdodau lleol Gogledd Cymru, mae'r llyfryn Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata hwn yn cynnig amrywiaeth o gynghorion, a ffyrdd da o ddwyn sylw at y gwahaniaeth a wnaeth y grant.

## Gofynion brandio

Mae cydymffurfio â'r gofynion brandio a chyhoeddusrwydd yn un o amodau Cytundeb Ariannu Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru. Rhaid dilyn y canllawiau brandio gorfodol isod:

- Lle bo modd gwneud hynny, defnyddiwch fersiynau C a D o'r logo 'Wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU / Funded by the UK Government'.
- Wrth greu llinell o logos, dechreuwch gyda'r logo 'Wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU / Funded by the UK Government' a defnyddio mesur x fel gofod rhwng pob graffig.
- Rhaid i bob fersiwn o'r logo gynnwys ardal glir (exclusion zone) o uchder (x) y grib a bod ddim llai nag uchder 10mm fel y gellir ei weld yn glir.
- Rhowch logo yr awdurdod /au lleol sydd wedi cefnogi eich prosiect wrth ochr y logo 'Wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU / Funded by the UK Government' mewn datganiadau i'r wasg. A defnyddiwch enw swyddogol y gronfa - 'Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru'.
- Rhaid i bob datganiad i'r wasg am brosiectau a gefnogir gan CFfGDU gynnwys cyfeiriad at yr arian a roddwyd yn y ffurf ganlynol: [Mae'r prosiect hwn / Enw'r prosiect] wedi derbyn £ [Y SWM A GAFWYD] oddi wrth ***enw'r awdurdod*** drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig (UKSPF)'.




**Logo C**

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU
Funded by
UK Government

**Logo D**

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU
Funded by
UK Government

# Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd ardderchog o ddweud stori eich prosiect. Gallwch ddefnyddio negeseuon trawiadol a chreadigol i gyrraedd tua **56.2 miliwn** o ddefnyddwyr brwd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Dyma rai tactegau a all fod o gymorth i greu diddordeb.

## Tactegau:

- **Deall eich cynulleidfa:** ystyriwch beth yw dymuniadau, anghenion, pryderon a disgwyliadau eich cynulleidfa, a beth yw eu hoff ffyrdd o dderbyn gwybodaeth, yn cynnwys y fformat a'r sianel.

- **Cynllunio'r cynnwys:** sefydlwch naws cyson i'ch negeseuon drwy fod yn rhagweithiol (proactive). Adeiladwch galendr cyhoeddusrwydd i greu patrwm ar gyfer negeseuon y dyfodol. Er enghraifft, efallai y dymunwch ddwyn sylw at gerrig milltir allweddol a gyrhaeddoch gan ddefnyddio CFfGDU, neu neges #ThrowbackThursday yn dathlu llwyddiannau'r gorffennol. Nodwch ddyddiadau a wythnosau codi ymwybyddiaeth sydd ar y gweill.




- **Ymgysylltu â defnyddwyr:** tagiwch bartneriaid perthnasol, fel eich cyngor lleol, ac ychwanegwch hashnodau fel #GogleddCymru #CFfGDU. Crëwch sgyrsiau drwy wahodd eich cynulleidfa i sôn am y budd a gawsant o'r prosiect dan sylw.

- **Rhannu'r sylw a roddwyd gan gyfryngau eraill:** os yw eich prosiect wedi derbyn sylw mewn gwahanol gyfryngau, ail-bostiwch newyddion perthnasol i CFfGDU ar eich cyfryngau cymdeithasol chi eich hun i gryfhau delwedd y brand.

- **Postio'n rheolaidd:** adeiladwch gysylltiadau cryf a chadarn drwy yrru negeseuon rheolaidd.

- **Addasu eich cynnwys:** er ei bod yn iawn defnyddio'r un neges ar nifer o sianelau gwahanol, cofiwch fod gwahanol lwyfannau yn hoffi negeseuon mewn ffurf wahanol. Er enghraifft, mae TikTok yn blatfform da dros ben ar gyfer fideos byr.

# Fideos

Mae fideos yn ffordd ardderchog o rannu hanes eich siwrnai. Gellir addasu'r cynnwys i'ch helpu i gyfleu'r neges mewn gwahanol gyfryngau, a thrwy hynny gyrraedd rhagor o bobl.



## Cyngor buddiol:

- **Y math o gynnwys:** mae cyfweliadau gyda phobl allweddol, fel a welir mewn rhaglenni newyddion, yn aml yn gweithio'n well na fideos llawn animeiddiadau a miwsig.

- **Hyd y fideo:** ystyriwch lunio clipiau fideo byr 30 eiliad y gellir eu defnyddio i gyrraedd tu hwnt i'r gynulleidfa sy'n gweld eich datganiad a ffotograff arferol.


- **Gwneud yn haws ei ddeall:** mae ychwanegu capsiynau ac isdeitlau dwyieithog yn ei gwneud yn haws i wylwyr ddeall eich neges.

- **Llwyfannau:** rhowch negeseuon am lwyddiannau CFfGDU ar eich gwefan, cyfryngau cymdeithasol a dogfennau megis llawlyfrau digidol i fod yn fwy rhyngweithiol.

- **Cydweithredu ag eraill:** os ydych wedi gweithio neu bartneru gydag eraill, er enghraifft busnes lleol, gofynnwch iddynt rannu eich cynnwys ar eu sianelau hwythau. Bydd eu rhwydwaith nhw yn debyg o gynnwys pobl a fydd â diddordeb yn eich sector chi. Hefyd, codwch broffil eich awdurdod lleol yn clustnodi arian drwy ddiolch iddynt am eu rhodd yn y fideo.

- **Teitlau:** postiwch y fideo ar YouTube gan wneud eich brand yn fwy gweladwy drwy gynnwys disgrifiadau a theitlau byr, cryno a chlir. Bydd ychwanegu hashnodau fel #CFfGDU yn eich helpu i gyrraedd cyn gymaint o bobl â phosibl.

Am arweiniad pellach, edrychwch ar fideo Cyngor Sir y Fflint yn dangos sut y defnyddiwyd arian UKSPF gan WeMindTheGap:
**https://www.youtube.com/watch?v=-DiXqKS7J_M**



# Ffeithluniau

Mae ffeithluniau (infographics) yn ddull da o gyflwyno data ac ystadegau mewn ffordd ddifyr ac atyniadol i ddangos sut y defnyddiwyd yr arian a gaed gan awdurdodau lleol. Mae defnyddio delweddau, darluniau a ffotograffau i fywiogi geiriau'r testun yn ffordd effeithiol o gyfleu gwybodaeth allweddol yn glir a chryno.

## Cyngor buddiol:

- **Pa gymorth sydd ar gael:** mae meddalwedd amrywiol ar gael i greu ffeithluniau, er enghraifft meddalwedd dylunio Canva sy'n marchnata ei hun fel ap hawdd ei ddefnyddio. Yno cewch ddewis helaeth o ffotograffau, graffeg, testun a thempledau stoc, ynghyd â'r opsiwn o ddylunio eich ffeithluniau eich hun.

- **Sut y dylent edrych:** nid oes unrhyw reolau pendant ynghylch sut y dylai ffeithluniau edrych. Er mwn gofalu fod y cynnwys yn hawdd ei ddarllen a'i ddeall, awgrymwn eich bod yn defnyddio lliwiau sy'n gwrthgyferbynnu'n ddigonol (contrasting colours). Ni ddylai lliw'r cefndir, y testun a thu blaen y ffeithlun fod rhy debyg i'w gilydd. Dylai'r darluniau a'r graffeg fod yn berthnasol i eiriau'r testun, a helpu'r darllenydd i ddeall y stori'n well.

- **Beth ddylid ei gynnwys:** Dylai'r ystadegau a data a ychwanegir ddangos effaith eich y buddsoddiad arnoch chi neu ddefnyddwyr y prosiect mewn ffordd sy'n hoelio sylw'r gynulleidfa - er enghraifft 'Yn dilyn yr hyfforddiant, cafodd deg aelod o staff eu dyrchafu i swyddi uwch'.

- **Lle dylid eu defnyddio:** Rhannwch ar y cyfryngau cymdeithasol, gan fod ymchwil yn dangos fod defnyddwyr dair gwaith tebycach o ymateb i negeseuon sy'n cynnwys ffeithluniau. Ystyriwch eu defnyddio mewn newyddlenni print, e-Lyfrau, ac ar eich gwefan i helpu darllenwyr i weld a deall dylanwad CFfGDUar eich sefydliad.




Enghraifft

# Y Cyfryngau Newyddion

Gall ysgrifennu datganiadau i'r wasg fod o gymorth i yrru eich neges i gynulleidfaoedd amrywiol, a lledaenu eich enw da.

## Cyngor buddiol:

**1. Adnabod eich cyfryngau:** cyn drafftio datganiad, gwnewch ymchwil i'r cyfryngau y dymunwch eu targedu er mwyn deall y math o straeon a hoffant, a gwneud yn si r fod eich stori'n berthnasol.

**2. Canfod ongl newyddiadurol:** ar ôl dewis pa gyfryngau i'w targedu, dewiswch ongl i'r stori, er enghraifft penodiad neu gontract newydd, carreg filltir bwysig i'r prosiect dan sylw.


**3. Ysgrifennu mewn arddull newyddiadurol:** dechreuwch y stori drwy roi trosolwg cryno o'r hyn a ddigwyddodd. Ymhelaethwch ar hynny yn y paragraffau dilynol gan egluro pwy, beth, lle, pryd, pam a sut. Defnyddiwch frawddegau byr, yn ddelfrydol dim mwy na 30 gair. Er mwyn bod yn hollol glir, dywedwch pa awdurdod lleol a ddarparodd yr arian, rhowch enw'r prosiect a dywedwch pa sefydliad a'i gweithredodd.

**4. Ychwanegu dyfyniadau:** dylech gynnwys dyfyniadau (quotes) gan rai a fanteisiodd o'r cynllun UKSPF er mwyn ychwanegu elfen ddynol, emosiwn a safbwynt personol.

**5. Ailddarllen yn ofalus:** gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi eich hun – Ydi o'n rhy hir? yn rhy fyr?, yn llawn jargon? yn llifo'n esmwyth? Ydi'r darllenydd yn gorfod baglu dros ramadeg wael a chamsillafu?

**6. Cynnwys ffotograffau:** ychwanegwch ffotograffau o ansawdd da fel eich bod yn dangos effaith CFfGDU mewn ffordd weladwy i hoelio sylw newyddiadurwyr. Gwnewch yn si r nad yw'r lluniau'n llai o faint nag 1MB fel y gellir argraffu'r ddelwedd i safon uchel.

**7. Perffeithio eich datganiad:** edrychwch eto ar bennawd y stori. Ydi'r pennawd yn dangos yn glir beth mae'r stori'n ei ddweud? Ydi'r pennawd yn ddigon byr? Defnyddiwch bennawd y stori fel pwnc (subject line) yr e-bost a chynnwys y datganiad i'r wasg yng nghorff yr e-bost. Bydd hyn o gymorth i ddenu sylw'r newyddiadurwr a gwneud y datganiad yn haws ei ddarllen.


Cambrian News

HOME NEWS OPINION SPORT YOUR AREA WHAT'S ON SEND YOUR STORY PUBLIC NOTICES JOBS SUBSCRIPTION MORE

NEWS \ BUSINESS

**Gwynedd businesses receive £2 million financial boost**

Funding worth over £2 million has been awarded to Gwynedd businesses through grants to support local development.

By Dylan Davies | News editor |
Wednesday 26th March 2025 7:00 am
@dylandavies1
dylan@cambrian-news.co.uk

SPREAD THE NEWS

RE:COGNITION HEALTH
Join Our Alzheimer's Study
Join the fight against Alzheimer's disease. Many great benefits. Find out more.

# Straeon ar y We

Mae eich gwefan yn lle perffaith i ddangos llwyddiannau eich prosiect a'r budd a gawsoch chi a'ch cymuned o'r arian. Mae'n lle ystwyth, digidol i adrodd straeon a fydd o ddiddordeb i'ch rhanddeiliaid.

## Mathau o straeon ar y We:

- **Astudiaethau achos:** mae'r math yma o stori ar y we yn rhoi trosolwg o ddeilliannau a llwyddiannau allweddol rhaglen, ymgyrch neu brosiect
- **Y newyddion diweddaraf:** caiff y math yma o stori ei hysgrifennu mewn arddull debyg i ddatganiad i'r wasg. Bydd yn cynnwys pennawd yn crynhoi cynnwys y stori, dyfyniadau a ffotograffau.


## Beth i'w wneud:

- **Dewis stori:** gallwch ysgrifennu stori am bob math o bethau. Er enghraifft, sut y llwyddoch i gyrraedd carreg filltir bwysig, recriwtio a hyfforddi staff, gwella adnoddau a.y.y.b, diolch i grant eich awdurdod lleol o'r gronfa CFfGDU.

- **Ychwanegu dyfyniadau:** rhowch ddyfyniadau gan rai a fanteisiodd o'r cynllun o fewn eich stori ar y we er mwyn ychwanegu elfen ddynol, emosiwn a barn.

- **Defnyddio ffotograffau:** cynhwyswch ffotograffau o ansawdd uchel gyda'ch stori ar y we er mwyn dangos y digwyddiad mewn ffordd weladwy a hoelio sylw'r darllenydd.

- **Ailddarllen yn ofalus:** gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi eich hun – Ydi o'n rhy hir? yn rhy fyr?, yn llawn jargon? yn llifo'n esmwyth? Ydi'r darllenydd yn gorfod baglu dros ramadeg wael a chamsillafu?




Am enghraifft dda o sut i ysgrifennu stori ar y we, ewch i wefan Prifysgol Bangor i weld sut y defnyddiodd y sefydliad addysg hwn y cynllun UKSPF: **https://shorturl.at/Z5ifq**

# E-farchnata

Mae e-farchnata yn ffordd glyfar o yrru gwybodaeth yn uniongyrchol i flwch e-byst eich cynulleidfa darged. Enghraifft o e-farchnata yw e-newyddlen. Mae'r dull digidol hwn yn ffordd gost effeithiol o gyhoeddi'r newyddion diweddaraf a dull hwylus o ddangos llwyddiant eich prosiect yn eich cymuned neu eich busnes.

## Sut i greu e-newyddlen:


- **Creu rhestr e-byst:** casglwch fanylion y bobl y dymunwch iddynt dderbyn eich newyddlen drwy gynnwys ffurflen opt-in i dderbyn e-byst ar eich gwefan. Gwnewch hynny hefyd fel rhan o'ch proses archebu. Gallwch gyrraedd eich cynulleidfa darged drwy ychwanegu linc i'ch rhestr bostio yn eich proffiliau cyfryngau cymdeithasol. Gofalwch fod pob gwybodaeth a brosesir gennych yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (General Data Protection Regulation - GDPR).

- **Adnabod eich darllenwyr:** bydd adnabod eich cynulleidfa yn eich helpu i benderfynu pa straeon CFfGDU fydd yn apelio fwyaf at eich darllenwyr. I ddod i'w hadnabod yn well, defnyddiwch arfau fel ffurflenni Google i greu holiadur yn gofyn i ddarllenwyr eich e-newyddlen pa fath o straeon yr hoffent eu darllen.

- **Gosod y cynnwys mewn ffordd glir:** defnyddiwch feddalwedd e-byst poblogaidd fel Mailchimp, sy'n  hawdd ei ddefnyddio er mwyn dylunio newyddlen sy'n plesio eich darllenwyr.

- **Ysgrifennu fel newyddiadurwr:** dechreuwch drwy nodi effaith/canlyniad y stori yn gyntaf, cyn symud ymlaen i gynnwys y manylion. O wneud hyn, gallwch yrru'r stori i'r gwahanol gyfryngau wedyn, a'i haddasu'n rhwydd pe bai'r erthygl o ddiddordeb i newyddiadurwr.

**Enghraifft o e-newyddlen**



# Cyfathrebu Mewnol

Mae'n bwysig bod cyfathrebu mewnol mewn lle er mwyn rhannu buddion gyda staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid ehangach. Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am lwyddiannau eich prosiectau, a gwaith y gwahanol awdurdodau lleol.

## Cyngor buddiol:

- **Sefydlu trefn gyfathrebu mewnol:** os nad oes gennych ffyrdd o ddiweddaru staff am gynlluniau'r cwmni eisoes ar waith, gallwch wneud hynny drwy gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, defnyddio mewnrwyd y cwmni, meddalwedd fel Microsoft Teams neu e-byst. Cofiwch fod rhaglenni fel Outlook yn caniatáu ichi yrru e-byst i lu o bobl ar yr un pryd.

- **Meddwl yn fewnol gyntaf:** rhowch wybod i'ch staff cyn rhannu newyddion yn allanol.

- **Gofyn i staff ledaenu eich negeseuon:** anogwch eich staff a chydweithwyr i rannu, 'hoffi', ailbostio a mynegi barn am eich cyhoeddusrwydd i faterion CFfGDU ar y cyfryngau cymdeithasol, fel bod eu rhwydwaith cydweithwyr a chyfeillion hwythau yn clywed am eich ymdrechion.

